



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canllawiau ar gyfer
cynnal adolygiadau o
wenwyno angheuol ac
nad yw'n angheuol gan
gyffuriau yng Nghymru

Mehfin 2014

Cynnwys

1.	Pwrpas	2
2.	Cefndir	2
2.1	Achos angheuol o wenwyno gan gyffuriau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau	2
2.2	Achos nad yw'n angheuol o wenwyno gan gyffuriau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau	2
3.	Adolygu Achosion Angheuol ac Nad Ydynt yn Angheuol o Wenwyno Gan Gyffuriau: Prosesau a Strwythurau	3
3.1	Diffiniadau	4
3.2	Ailddatblygu'r strwythurau presennol	4
3.3	Rolau a chyfrifoldebau	5
3.3.1	Llywodraeth Cymru	5
3.3.2	Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno gan Gyffuriau	5
3.3.3	Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau	6
3.3.4	Grwpiau Lleihau Niwed	6
3.3.5	Darparwyr, Gweithwyr Allgymorth a Chyfoedion	8
3.3.6	Rhwydweithiau gwybodaeth lleol – Cyffuriau a Reolir	9
4.	Protocolau/Cytundebau Rhannu Gwybodaeth	10
4.1	Canllawiau a deddfwriaeth allweddol	10
4.2	Diben rhannu gwybodaeth	10
4.3	Matrics ffynonellau a'r math o wybodaeth y gwneir cais amdani	10
4.4	Casglu data	12
5.	Gweithdrefnau	12
5.1	Achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau	12
5.2	Achosion o wenwyno nad ydynt yn angheuol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau	13
	Cyfeiriadau	15
Atodiad 1	– Ffurflen (ddiwygiedig) DRD 1	17
Atodiad 2	– Ffurflen (ddiwygiedig) DRD 2	25
Atodiad 3	– Ffurflen (ddiwygiedig) DRD 3	26
Atodiad 4a	– Map amlinellol o'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau o achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau	30
Atodiad 4b	– Map amlinellol o'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau o achosion nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau	31
Atodiad 5	– Strwythurau a phrosesau blaenorol cyn 2014	32
Atodiad 6	– Data sylfaenol ar nifer yr achosion yng Nghymru 2012	34
Atodiad 7	– Diffiniadau o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau	38
Atodiad 8	– Codau ICD-10	41

1 Pwrpas

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r fframwaith a'r gweithdrefnau i gynnal adolygiadau o achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru o fis Gorffennaf 2014 ymlaen yn unol â'r nodau allweddol yng Nghynllun Cyflawni Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 2013-2015 (Canlyniad 3.1).¹ Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i'r holl randdeiliaid yng Nghymru sydd â chylch gwaith o leihau nifer yr achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru ac maent yn disodli canllawiau blaenorol.² Mae'r canllawiau yn cwmpasu pob cam o'r adolygiad yn cynnwys symbylu, cydweithio â chyrff statudol i gasglu data, pennu a gweithredu argymhellion/gwersi a ddysgwyd a rhannu gwybodaeth er mwyn gweithredu.

2 Cefndir

2.1 Achos angheuol o wenwyno gan gyffuriau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau

Mae'r term 'achos angheuol o wenwyno gan gyffuriau' yn disodli'r termau hanesyddol 'gorddos o gyffuriau neu farwolaeth oherwydd cyffuriau'. Fel rhan o Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed 2008-2018', mae'r trydydd Cynllun Cyflawni 2013-15 yn nodi'r camau gweithredu i 'Leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ac achosion nad ydynt yn angheuol o orddos/gwenwyno alcohol yng Nghymru'¹, gyda mesurau penodol mewn perthynas â chyffuriau, sef:

- i. Gostyngiad yn nifer y Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chamddefnyddio Sylweddau;
- ii. Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn yn yr ysbyty yn sgil cael eu gwenwyno gan gyffuriau.

Mae dulliau blaenorol sy'n defnyddio'r 'adolygiad cyfrinachol' ar gyfer ymchwilio i amgylchiadau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau rhwng 2005 a 2013 wedi'u nodi yn Atodiad 5. Yn ogystal â Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, mae lleihau nifer yr achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn gorgyffwrdd â nifer o raglenni eraill Llywodraeth Cymru a gwaith lechyd y Cyhoedd yn cynnwys rhaglen yr Adolygiad o Farwolaethau Plant a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Leihau Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru 2009-2014.³

2.2 Achos nad yw'n angheuol o wenwyno gan gyffuriau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau

Mae achos nad yw'n angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn disodli'r term hanesyddol 'Gorddos fu bron â digwydd'. Er bod achosion nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau wedi cael eu hysbysu'n anffurfiol yn lleol yn y gorffennol, a chyingor ar leihau niwed wedi'i roi fel y bo'n briodol, hyd yma, nid oes unrhyw system gyffredin ar waith ar gyfer adolygu achosion nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau ledled Cymru.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru arolwg o orddos o opiadau a hynny mewn dwy ran: *arolwg holiadur meintiol* o ddefnyddwyr sy'n chwistrellu opiadau i ganfod pa mor aml y byddai gorddos nad oedd yn angheuol yn digwydd, ac arolwg cyfweiliad ansoddol o is-set o'r ymatebwyd i ganfod natur ac amgylchiadau'r gorddos.

Prif ganfyddiadau'r *arolwg holiadur meintiol* oedd bod bron hanner (47%) yr holl ddefnyddwyr opiadau yn dweud iddynt orddosio o leiaf unwaith yn eu bywyd a dywedodd 15 y cant iddynt wneud hynny yn ystod y 12 mis diwethaf.

3 Adolygu achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau: prosesau a strwythurau

O 2014 ymlaen, dylid cynnal ymchwiliadau lleol neu 'adolygiadau achos' lleol yn lle'r broses adolygu gyfrinachol a ddisgrifir yn Atodiad 5. Nid oes angen cwblhau cwest mewn adolygiad achos ac mae'n dechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl wedi'r achos angheuol o wenwyno gan gyffuriau. Nod yr adolygiad achos yw darparu gwybodaeth amserol yn ymwneud â'r 'math o farwolaeth' lle bo'r dystiolaeth orau yn awgrymu achos posibl o wenwyno gan gyffuriau yn unol â'r diffiniad ehangach a amlinellir isod, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y 'gwersi a ddysgwyd'. Byddai'r data tocsicoleg dilynol a chanfyddiadau'r cwest yn cael eu cynnwys yn ffeil yr adolygiad, pan fyddai ar gael, er mwyn gallu eu dadansoddi'n derfynol ac er mwyn sicrhau bod ffeil derfynol yr adolygiad achos yn gyflawn.

Mae'r broses adolygu'n canolbwyntio ar wenwyno gan gyffuriau. Nid yw adolygu marwolaethau yn sgil salwch cronig a chlefyd o ganlyniad i ddefnyddio a dibynnu ar gyffuriau yn yr hirdymor, yn rhan o gylch gwaith y canllawiau hyn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Paneli Adolygu Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau wedi llwyddo i dynnu sylw at yr argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiadau cyfrinachol ar ôl cwest. Bydd y broses adolygu hon ar gyfer yr holl achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau sy'n digwydd yn y gymuned, a gweithio'n agosach mewn partneriaeth, yn hysbysu ymhellach y rhai sy'n gyfrifol am leihau nifer yr achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn lleol ac yn genedlaethol.

Nid yw'r canllawiau hyn yn argymhell cynnwys y canlynol o fewn cylch gwaith yr adolygiadau achos lleol o wenwyno angheuol gan gyffuriau:

- Adolygiadau o ddynladdiad domestig lle caiff cyffuriau eu crybwyll. Mae adnoddau a chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar waith i gefnogi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn eu dyletswydd i gynnal adolygiadau o ddynladdiad domestig.
- Marwolaethau yn sgil salwch cronig sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn yr hirdymor e.e. marwolaethau o ganser hepatogellog yn sgil haint hepatitis C. Mae systemau goruchwyliaeth ar wahân ar gael i gofnodi'r marwolaethau hyn a modelu baich y clefyd yn y dyfodol.
- Marwolaethau yn nalfa'r Heddlu. Mae systemau cadarn ar waith i ymchwilio i'r marwolaethau hyn (Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu)⁴ a chaiff data crynswth yn ymwneud â'r holl farwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau, yn cynnwys y rhai sy'n digwydd yn y ddalfa, ei gasglu bob blwyddyn i hysbysu'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Achosion o Wenwyno gan Gyffuriau a'r holl randdeiliaid perthnasol.
- Marwolaethau yn ystad y Carchardai. Mae systemau cadarn ar waith ar gyfer ymchwilio i'r marwolaethau hyn (Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf dros Gymru a Lloegr)⁵ a chaiff data crynswth yn ymwneud â'r holl farwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau, yn cynnwys y rhai sy'n digwydd yn y carchar neu i bobl sydd newydd gael eu rhyddhau o'r carchar, ei gasglu bob blwyddyn i hysbysu'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Achosion o Wenwyno gan Gyffuriau a'r holl randdeiliaid perthnasol.

3.1 Diffiniadau

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar adolygiadau o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau² a gyhoeddwyd yn 2005 yn amlinellu dwy haen o adolygiadau sy'n defnyddio dau ddiffiniad penodol:

Diffiniad eang, yn benodol:

'Caiff marwolaeth ei diffinio fel 'bod yn berthynol i gyffuriau' lle mae'n debygol bod canlyniad uniongyrchol cymryd neu weinyddu unrhyw gyffur neu sylwedd anweddol heb fod yn therapiwtig (ac eithrio alcohol ei hun) i berson, yn ffactor achosol neu gyfrannol yn ei farwolaeth.'

a diffiniad y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ACMD) o farwolaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau, a ddefnyddir hefyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS):

'Marwolaethau lle mae gwenwyno, camddefnyddio cyffuriau neu ddibyniaeth ar gyffuriau yn rheswm sylfaenol a lle'r oedd unrhyw un o'r sylweddau a restrir yn Neddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 (fel y'i diwygiwyd) wedi cyfrannu atynt'.⁶

Dylid defnyddio'r diffiniad eang fel diffiniad gweithredol ar gyfer nodi achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau i'w hadolygu, wrth ddatblygu gweithdrefnau gweithredu safonol a'u rhoi ar waith. Mae'r diffiniad hwn yn rhoi darlun mwy cyflawn o amllder yr achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau.³ Caiff gwybodaeth am yr holl adolygiadau achos ei chasglu a'i chymharu â data blynyddol ONS ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau i roi dadansoddiad o effeithlonrwydd y broses adolygu achosion o ran nodi achosion angheuol perthnasol o wenwyno gan gyffuriau a gwella gweithdrefnau yn y dyfodol.

3.2 Ailddatblygu'r strwythurau presennol

Nod y gweithdrefnau a'r fframwaith adolygu achosion yw sicrhau'r canlynol:

- Bod rolau a chyfrifoldebau ar lefel Bwrdd Cynllunio Ardal/Cenedlaethol a darparwr lleol wedi'u hegluro'n glir a bod cydgysylltu'n digwydd rhyngddynt.
- Bod y gwersi a ddysgwyd a'r argymhellion mewn perthynas ag atal achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ledled holl ardaloedd Byrddau Iechyd Cymru.
- Bod ymateb prydlon i achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn lleol, yn cynnwys casglu gwybodaeth ac egluro amgylchiadau'r farwolaeth.
- Bod cydweithio arloesol ac effeithiol rhwng y rhai sydd â rôl ymchwilio statudol (Crwneriaid, yr Heddlu, Swyddogion Atebol Digwyddiadau Anffafriol Difrifol) a'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal adolygiadau achos, pennu'r gwersi a ddysgwyd ac argymhellion ar gyfer atal achosion angheuol neu nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau.
- Bod gwybodaeth ac argymhellion a bennir ar lefel leol (ar gyfer achosion o wenwyno angheuol ac nad ydynt yn angheuol) yn cael eu rhannu hyd at lefel Bwrdd Iechyd (Bwrdd Cynllunio Ardal) a'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol i'w hystyried a'u rhoi ar waith yn genedlaethol.
- Bod dulliau cadarn o goladu, dadansoddi, cydgysylltu a rhannu data ac argymhellion yn effeithiol i atal achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau ledled Cymru a gweddill y DU a thu hwnt.

3.3 Rolau a chyfrifoldebau

3.3.1 Llywodraeth Cymru

Mae lleihau nifer yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau yn un o ddangosyddion canlyniad allweddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (ar gael yn: Llywodraeth Cymru Rhaglen Lywodraethu) ac yn un o fesurau perfformiad Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed".¹

Gan fod lleihau nifer yr achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn flaenoriaeth Weinidogol, mae Llywodraeth Cymru, yng Nghynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2013-15, wedi nodi "Cam Gweithredu 3.1 Lleihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ac achosion nad ydynt yn angheuol o orddos/gwenwyn alcohol yng Nghymru" (t.6) gyda mesurau perfformiad penodol fel:

- Gostyngiad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.
- Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn yn yr ysbyty yn sgil cael eu gwenwyno gan gyffuriau.

Er mwyn helpu i gyflawni'r mesurau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu ac yn cadarnhau Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol (a amlinellir isod) ac yn rhoi cymorth er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd a'r argymhellion – rhai cyfredol ac arfaethedig – yn cael eu rhoi ar waith ledled Cymru a bod unrhyw rwystrau i weithredu yn cael eu goresgyn, lle y bo'n bosibl. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses o greu cronfa ddata gadarn ar gyfer achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau drwy Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru a thrwy helpu i rannu gwybodaeth, tystiolaeth a chanfyddiadau yn ehangach drwy gyfrwng gwefan benodol.

3.3.2 Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno gan Gyffuriau

Bydd **Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno gan Gyffuriau** (NIBDPP) yn disodli'r Grŵp Monitro Cenedlaethol ar gyfer Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau. Bydd y grŵp lefel uchel hwn yn gyfrifol am greu cynllun i sicrhau bod yr argymhellion presennol a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhoi ar waith yn llawn. Bydd gan y Bwrdd Gweithredu hwn rôl fonitro hefyd er mwyn sicrhau bod Byrddau Iechyd/Byrddau Cynllunio Ardal a'r holl randdeiliaid eraill, gan gynnwys Gofal Sylfaenol a Fferylliaeth, yn mynd ati i weithredu'r argymhellion presennol ac arfaethedig yn llawn.

Bydd y Bwrdd Gweithredu hwn hefyd yn:

- gweithio gyda Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu ar gyfer Cymru ac yn cysylltu â chyrrff perthnasol eraill y DU ac Ewrop sydd â chylch gwaith o leihau'r achosion o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a gwenwyno nad yw'n angheuol;
- gwerthuso gwaith ymchwil a chanfyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol newydd, ac yn asesu'r effaith bosibl ar bolisiau'r dyfodol;
- nodi enghreifftiau o arferion da a rhannu gwybodaeth â'r holl randdeiliaid perthnasol, yn ymwneud â'r cynnydd diweddaraf, a'r rhwystrau i hynny, wrth weithredu.

Dylai aelodau'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol hwn gynnwys uwch-gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol, a dylent drefnu cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn:

- Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau

- Seiciatreg Ymgynghorol
- Arweinydd Adrannau Brys y Bwrdd Iechyd
- Gwasanaeth y Crwner
- Patholeg/Tocsicoleg
- Yr Heddlu/Comisiynydd Camddefnyddio Sylweddau Cyfiawnder Troseddol/Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid
- Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu – Cymru
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol
- Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
- Cynrychiolydd Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau yn y DU e.e. np-SAD
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST)
- Llywodraeth Cymru.

3.3.3 Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau

Mae Safonau Craidd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru⁷ yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Cynllunio Ardal roi cynlluniau ar waith ledled yr ardal er mwyn:

- i. Nodi gofynion gwella iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau;
- ii. Ymateb yn briodol;
- iii. Mesur gwelliannau a lleihau anghydraddoldebau;

a "... bod â system ar waith a ddylai, o leiaf, ei gwneud hi'n bosibl adolygu marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a digwyddiadau y bu bron iddynt achosi marwolaeth, yn rheolaidd ..."

Dylai Byrddau Cynllunio Ardal sicrhau bod y Safonau Craidd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau⁷ a safonau perthnasol eraill yn cael eu cynnwys ym mhob system cynllunio a darparu gwasanaethau gan roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a'i adolygu.

Bydd y Cadeirydd neu'r cynrychiolydd enwebedig o'r Grŵp Lleihau Niwed (ar y cyd â'r Bwrdd Cynllunio Ardal) yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar yr adolygiadau o achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau i'r Bwrdd Cynllunio Ardal ym mhob cyfarfod, a lle y bo'n ofynnol, y tu hwnt i drefniadau cyfarfodydd arferol, bydd yn hysbysu'r Byrddau Cynllunio Ardal am ddigwyddiadau eithriadol, yn cynnwys clystyrau o achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau, er mwyn cymryd camau gweithredu.

3.3.4 Grwpiau Lleihau Niwed

Dylai'r adolygiadau achos cyflym gael eu harwain gan unigolyn cyfrifol/Swyddog Arweiniol o fewn y Grŵp Lleihau Niwed – y cyfeirir ato fel Cydgysylltydd Adolygiad Achos (y Cydgysylltydd). Lle y bo'n bosibl, dylai fod gan yr unigolyn hwn brofiad o gynnal ymchwiliadau (yn unol â rôl Swyddog Atebol neu ymchwilydd Digwyddiadau Anffafriol Difrifol o fewn y Bwrdd Iechyd). Os yw'r rôl hon ar waith, argymhellir y

dylai'r Arweinydd Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol neu'r swyddog cyfatebol ym mhob Bwrdd Iechyd/ardal Bwrdd Cynllunio Ardal ymgymryd â hi.

Lle nad ydynt eisoes ar waith, dylid sefydlu Grwpiau Lleihau Niwed (ar y cyd â'r Byrddau Gweithredu Ardal). Dylai'r aelodau gynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau haenau 2, 3 a 4
- Yr Heddlu
- Ambiwlans
- Gwasanaeth y Crwner
- Iechyd Meddwl Cymunedol
- Gwasanaethau Ieuencid/Timau Troseddwy'r Ifanc
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tai a Digartrefedd
- Y Gwasanaeth Prawf
- Carchardai
- Gwasanaeth y Crwner
- Comisiynwyr Sylweddau Cyfiawnder Troseddol/Y Gwasanaeth Prawf
- Rhwydwaith Gwybodaeth Lleol
- Ymchwilydd Digwyddiadau Anffafriol Difrifol (Bwrdd Iechyd)
- Comisiynwyr
- Patholeg
- Gofal Sylfaenol
- Llywodraeth Cymru.

Mae llunio partneriaeth a chydweithredu, yn enwedig â Gwasanaethau'r Crwner, er mwyn helpu i ymchwilio i amgylchiadau marwolaeth, yn hollbwysig i sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i'w dadansoddi. Dylid cael gwybodaeth yn ymwneud ag amgylchiadau'r achos angheuol o wenwyno gan gyffuriau gan y bobl a oedd yn gysylltiedig â'r person sydd wedi marw (cyfoedion/teulu/gofalwyr/gweithwyr alcohol/cyffuriau/gwasanaethau cymdeithasol/tai/y person a roddodd y presgripsiwn iddo/Gofal Sylfaenol ac ati). Dylid defnyddio gwybodaeth safonedig/ffurflen gofnodi **ddiwygiedig DRD3** (gweler atodiad 3) i sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod yr holl wybodaeth briodol yn cael ei chasglu.

Dylai dogfennau'r adolygiad achos gynnwys:

- Demograffeg
- Manylion amgylchiadau'r farwolaeth gan gynnwys meddyginiaethau presennol a manylion unrhyw gysylltiad â'r gwasanaeth iechyd/gofal cymdeithasol/cyfiawnder troseddol yn ystod y chwe mis blaenorol
- Crynodeb o'r dangosyddion/ffactorau risg.

Yn ogystal â'r broses adolygu achosion ffurfiol, a thrwy ymchwiliadau lleol i ganfod pwy oedd mewn cysylltiad â'r person sydd wedi marw, dylid casglu gwybodaeth am gyfoedion y gall fod angen ymyriadau seico-gymdeithasol arnynt (gan gynnwys cwnsela galar). Dylid meithrin cysylltiad anffurfiol (e.e. drwy wasanaethau cefnogi allgymorth) a chynnig cymorth priodol er mwyn cyfyngu ar y tebygolrwydd o gael rhagor o achosion angheuol neu nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau ymhlith grŵp cyfoedion y person sydd wedi marw.

Unwaith y bydd y Cydgysylltydd wedi casglu'r holl wybodaeth sydd ar gael, ac o fewn 14 diwrnod gwaith i'r digwyddiad, dylid gwahodd yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol (fel yr amlinellir uchod) i fynychu'r adolygiad achos amlasiantaethol er mwyn asesu'r dystiolaeth, pennu'r 'gwersi a ddysgwyd' a gwneud argymhellion priodol. Os na all yr aelodau fod yn bresennol yn bersonol/drwy delegynadledda/fideo-gynadledda, dylent gyfrannu'n ysgrifenedig. Lle y bo'n bosibl, dylid newid yr arferion neu'r gwasanaethau cyfredol a ddarperir a hynny ar unwaith, gan adrodd arnynt a'u monitro. At hyn, dylid cyflwyno'r argymhellion i'r Grŵp Lleihau Niwed ehangach, y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol er mwyn iddynt eu hasesu/gwerthuso, eu gweithredu a'u rhannu.

Os nad oes digon o wybodaeth ar gael i gwblhau adolygiad, dylai'r Grŵp Lleihau Niwed a'r Byrddau Cynllunio Ardal gofnodi hyn ynghyd â'r ffaith bod yr achos 'yn yr arfaeth' ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed hyd nes bydd y cwest wedi'i gwblhau.

Dylai'r wybodaeth a gesglir ar bob cam o'r adolygiad achos fod yn 'gysylltiedig' ag adroddiad terfynol y Crwner, ynghyd â dadansoddiad terfynol, er mwyn cwblhau'r adolygiad achos. Bydd yr holl ddata dienw yn cael ei gasglu ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed – Achosion Angheuol o Wenwyno gan Gyffuriau a bydd adroddiad cryno terfynol ar gael i bawb sy'n rhan o'r adolygiad achos.

Mae achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau ymhlith unigolion sy'n gleifion yn y GIG ar hyn o bryd yn destun ymchwiliad drwy adolygiadau o **Ddigwyddiadau Anffafriol Difrifol**. Ystyr hyn yw:

- digwyddiad andwyol sy'n deillio o weithgaredd y GIG ac sy'n achosi anaf difrifol, niwed sylweddol neu barhaol neu farwolaeth (neu berygl o hynny) i ddefnyddiwr gwasanaeth, aelod o'r staff, contractiwr neu aelod o'r cyhoedd, neu sy'n cael effaith ddifrifol ar iechyd y cyhoedd;
- cam gweithredu gan aelod o'r staff, yn rhinwedd ei ddyletswyddau gyda'r GIG, sy'n debygol o beri pryder cyhoeddus neu broffesiynol sylweddol;
- digwyddiad sy'n effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaeth y GIG, gan beri i gynllun parhad busnes brys gael ei roi ar waith, neu a allai adlewyrchu achos difrifol o dorri safonau.

I gydnabod pwysigrwydd gorgyffwrdd posibl rhwng achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn y gymuned a'r rheini sy'n destun adolygiad Digwyddiadau Anffafriol Difrifol, argymhellir y dylid gweithio'n agos i sicrhau cysondeb. Yn amlwg, dylid osgoi ailadrodd ymdrechion lle y bo modd, ac o safbwynt adolygiad Digwyddiadau Anffafriol Difrifol, ni ddylid cynnal adolygiad achos ychwanegol. Fodd bynnag, lle y bo'n bosibl ac yn briodol, dylai'r ymchwilydd Digwyddiadau Anffafriol Difrifol gael ei gefnogi i gasglu'r holl fanylion perthnasol gan ddefnyddio'r system Adolygu Achosion i sicrhau bod cydweithio agos a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu gyda'r Grŵp Lleihau Niwed drwy brotocolau rhannu gwybodaeth.

3.3.5 Darparwyr, Gweithwyr Allgymorth a Chyfoedion

Mae tystiolaeth o'r Adolygiadau Cyfrinachol blaenorol o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau yng Nghymru yn dangos mai ymhlith unigolion nad oeddent mewn cysylltiad â gwasanaethau triniaeth ar y pryd y bu'r rhan fwyaf o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Yn 2012, dim ond 22% o'r achosion a adolygwyd oedd yn ymwneud â chleifion a oedd yn cael eu trin am gamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn ategu'r ffaith bod rhagor o weithwyr allgymorth rhagweithiol i ymgysylltu ag unigolion risg uchel a darparu mentrau ataliol gan gynnwys Nalocson ar gyfer y

Cartref a hyfforddiant, gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau, fel y nodir yng Nghompendiwm Iechyd a Lles Fframwaith Trin Camddefyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru⁸. Yn 2012, roedd y mwyafrif (51%) o'r achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau ymhlith unigolion a oedd wedi gadael triniaeth yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Felly, gellid hwyluso ymgysylltiad allgymorth anffurfiol parhaus.

Mewn achosion unigol neu luosog o wenwyno nad yw'n angheuol mewn lleoliad penodol, dylid cynnal adolygiad a chasglu data yn anffurfiol. Lle y bo'n bosibl, dylai darparwyr allgymorth a darparwyr mentor cyfoedion barhau i ymgysylltu ag unigolion sydd wedi profi achosion nad oeddent yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau a dylid cynnal ymyriadau ataliol. Mae tystiolaeth yn dangos eu bod mewn perygl cynyddol o wenwyno angheuol dilynol.^{9,10,11} Hefyd, dylid cofnodi a rhannu gwybodaeth ddiennw am achosion o wenwyno nad ydynt yn angheuol – yn enwedig lle bo sawl achos mewn ardal benodol – drwy rhwydweithiau lleol, rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli ar y we a rhwydweithiau eraill (e.e. Cronfa Ddata Lleihau Niwed ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r rhaglenni nodwyddau a chwistrellau).

Lle y bo'n bosibl, dylid nodi'r holl bobl hynny y gall achos angheuol o wenwyno gan gyffuriau effeithio arnynt, yn arbennig y rhai sy'n wynebu'r risg bosibl o wenwyno angheuol neu wenwyno nad yw'n angheuol yn y dyfodol (cyfoedion y person sydd wedi marw sydd eu hunain yn defnyddio cyffuriau), a dylid sicrhau bod cymorth seico-gymdeithasol priodol yn cael ei roi iddynt.

3.3.6 Rhwydweithiau gwybodaeth lleol – Cyffuriau a Reolir

Mae Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Iechyd enwebu Swyddog Atebol sy'n gyfrifol am bennu a monitro trefniadau mewn perthynas â chyffuriau a reolir fel archwilio a gwaredu diogel. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i Swyddogion Atebol y Bwrdd Iechyd bennu Rhwydweithiau Gwybodaeth Lleol (CD LINs) y mae'n rhaid iddynt gynnwys 'cyrff cyfrifol' penodol fel y Bwrdd Iechyd Lleol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yr awdurdod lleol, yr heddlu lleol a nifer o gyrff eraill. Gall Rhwydwaith o'r fath hefyd gynnwys cyrff eraill nad ydynt wedi'u nodi yn y rheoliadau; fodd bynnag, dim ond y rhai sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau fel 'cyrff cyfrifol' sydd â gofynion statudol i rannu gwybodaeth.

Prif ddiben y Rhwydwaith yw rhannu gwybodaeth am y defnydd o gyffuriau a reolir ac am unigolion (fel y rheini sy'n rheoli cyffuriau a reolir neu'n eu rhoi ar bresgripsiwn) sy'n peri pryder. Yn benodol, mae'r rheoliadau'n gofyn bod y cyrff cyfrifol yn rhannu gwybodaeth ar gais gan gyrff cyfrifol eraill, gan ddileu unrhyw fanylion a allai beri i rywun adnabod claf neu geisio caniatâd gan gleifion, lle y bo'n bosibl. Mae'r rheoliadau'n gofyn bod gwybodaeth yn cael ei rheoli yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data; fodd bynnag, mae'r rheoliadau'n nodi hefyd bod y rheoliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddata personol gael ei ddatgelu o dan adran 35(1) o'r Ddeddf honno.

Yn ogystal â'r Rhwydwaith Gwybodaeth Lleol, gall Swyddog Atebol ystyried pennu Panel Digwyddiadau sy'n cynnwys unigolion o 'gyrff cyfrifol' perthnasol er mwyn adolygu a gwneud argymhellion yn dilyn digwyddiad sy'n peri pryder.

Mae'n bwysig bod Swyddogion Atebol y Bwrdd Iechyd sy'n arwain Rhwydweithiau Gwybodaeth Lleol – Cyffuriau a Reolir yn sicrhau bod eu trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gadarn ac yn gyfredol.

Cytundebau Rhannu Gwybodaeth

Wrth ddelio â gwybodaeth, mae'n ofynnol i'r gwasanaeth Heddlu hefyd weithio yn unol â'r canllawiau ar gyfer Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI). Mae hyn yn gofyn bod gan heddluoedd Gytundebau Rhannu Gwybodaeth ar waith gyda'u holl asiantaethau y maent yn rhannu gwybodaeth â hwy; bydd hyn yn cynnwys y Rhwydweithiau Gwybodaeth Lleol – Cyffuriau a Reolir. Argymhellir y dylai Cadeiryddion y Rhwydweithiau Gwybodaeth Lleol – Cyffuriau a Reolir sy'n Swyddogion Atebol yn y Bwrdd Iechyd gysylltu â'u heddlu lleol a sicrhau bod Cytundebau o'r fath ar waith a'u bod yn cydymffurfio â'r canllawiau.

4 Protocolau/Cytundebau Rhannu Gwybodaeth

Mae'r canllawiau gweithredol canlynol ar gyfer rhannu gwybodaeth am farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn seiliedig ar nifer o ffynonellau, gan gynnwys llawlyfr 'Drug Related Death Operational Procedures' East Riding Safer Communities 2009.¹² Mae'r adran hon yn amlinellu'r systemau y gellir eu defnyddio i gwblhau'r adolygiadau achos arfaethedig yng Nghymru yn llwyddiannus ac yn ddiogel.

4.1 Canllawiau a deddfwriaeth allweddol

Nid yw Deddf Diogelu Data 1998 yn berthnasol i unigolion sydd wedi marw. O ran gwybodaeth bersonol yn ymwneud â phobl fyw sy'n gysylltiedig â pherson sydd wedi marw, neu'r rheini sydd wedi dioddef gwenwyno nad yw'n angheuol, bydd yr holl wybodaeth naill ai'n ddiennw yn unol â Chod Ymarfer ar Wybodaeth Ddiennw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth¹³ (hynny yw, ni ellir ei defnyddio mwyach i adnabod unigolyn, ni chaiff ei hystyried mwyach yn 'wybodaeth bersonol' ac felly nid yw'r Ddeddf Diogelu Data yn berthnasol iddi mwyach) neu caiff ei rhannu yn unol â'r Protocolau Rhannu Gwybodaeth a ddatblygwyd yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)¹⁴. Bydd y dull hwn o weithredu yn berthnasol i'r holl wybodaeth a gaiff ei rhannu y sonnir amdani yn yr adran hon ac yn yr adrannau canlynol a bydd yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol ar waith bob amser.

4.2 Diben rhannu gwybodaeth

- Nodi'r gwersi a ddysgwyd a rhannu argymhellion gyda'r holl sefydliadau a phartneriaethau perthnasol.
- Nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir.
- Argymhell newidiadau i bolisiau ac arferion.
- Nodi tueddiadau o ran camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad sy'n peri risg a newidiadau i'r math o niwed sy'n gysylltiedig â sylweddau penodol gan gynnwys cyffuriau/sylweddau seico-weithredol newydd nad ydynt wedi'u dosbarthu o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn unol â rhaglen WEDINOS Llywodraeth Cymru.
- Dilysu data lleol ochr yn ochr â ffynonellau data cenedlaethol eraill gan gynnwys rhai'r ONS ac np-SAD a chyfrannu at dystiolaeth y DU gyfan ar ymyriadau i leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

4.3 Matrics ffynonellau a'r math o wybodaeth y gwneir cais amdani

Mae'r matrics yn rhoi amlinelliad o'r ffynonellau/sefydliadau a'r mathau o wybodaeth sy'n debygol o fod yn berthnasol yn achos gwenwyno angheuol gan gyffuriau:

	Cofnodion meddyg teulu/meddygol y GIG yn cynnwys gwasanaethau brys ac iechyd meddwl	Gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau'r GIG	Trydydd Sector yn cynnwys camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl	Tai /hostelau	Gwasanaethau cymdeithasol	Yr Heddlu	Y Gwasanaeth Prawf	Carchardai a Thimau Troseiddwyr Ifanc
Hanes meddyginiaethau a chamddefnyddio sylweddau	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Hanes meddygol gan gynnwys iechyd meddwl	✓	✓	✓	✓	✓			✓
Cynllun triniaeth/gofal (gan gynnwys mewn perthynas â defnyddio sylweddau)	✓	✓	✓	✓	✓			✓
Cynllun asesu/risg	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Hanes o wenywyo nad yw'n anghyfeul	✓	✓	✓	✓	✓			✓
Atgyfeiriadau pellach	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓
Amlder Cyswllt	✓	✓	✓	✓	✓	✓		
Dyddiad y cyswllt diwethaf	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Rheswm dros adael cyswllt/triniaeth	✓	✓	✓	✓	✓		✓	
Hanes cyfiawnder troseddol						✓	✓	✓
Digwyddiadau cysylltiedig eraill	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

D.S. Mae ymgysylltiad rhagweithiol/gweithio mewn partneriaeth rhwng y Cydgysylltydd Adolygu Achos a Gwasanaeth y Crwner wrth ymchwilio i achos anghyfeul o wenywyo gan gyffuriau, yn hollbwysig i sicrhau bod y broses o bennu'r 'gwersi a ddysgwyd' a llunio argymhellion cystal â phosibl a'i bod yn gallu bod yn effeithiol wrth leihau/atal achosion anghyfeul/nad ydynt yn anghyfeul dilynol o wenywyo gan gyffuriau.

4.4 Casglu data

Y Cydgysylltydd Adolygu Achos sy'n gyfrifol am gychwyn adolygiad achos a chreu cofnod cronfa ddata gyda Rhif Achos Unigryw. Caiff Rhifau Achos Unigryw eu cynhyrchu drwy'r gronfa ddata lleihau niwed. Dylid defnyddio'r Rhif Achos Unigryw gyda phob cais am wybodaeth sy'n ymwneud â'r person sydd wedi marw (drwy ffurflen ddiwygiedig DRD3). Yna, bydd y Cydgysylltydd yn rhoi'r holl ddata newydd ar y gronfa ddata Lleihau Niwed – modiwl Gwenwyn Cyffuriau. Ar ôl dychwelyd yr holl ffurflenni diwygiedig DRD3, a phan fydd ar gael, adroddiad y Crwner a'r Tocsicolegydd, bydd yr achos wedi'i gwblhau. Cynhelir dadansoddiad o'r holl ddata blynyddol sy'n deillio o'r adolygiadau achos yn erbyn goruchwyliaeth ôl-weithredol o achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau fel y nodwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac np-SAD, gyda chymorth dadansoddol gan lechyd Cyhoeddus Cymru.

5 Gweithdrefnau

5.1 Achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau

(Mae map amlinellol o'r broses ar gyfer achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau ar gael yn Atodiad 4a).

1. Y Crwner neu Swyddog Arweiniol yr Heddlu yn hysbysu'r Cydgysylltydd Adolygu Achosion (Cydgysylltydd o hyn ymlaen) yng nghyswllt achos angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn y grŵp Lleihau Niwed, am farwolaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau drwy lenwi ffurflen DRD1 (ddiwygiedig – gweler atodiad 1).
2. Adolygiad achos yn mynd rhagddo. Mae'r Cydgysylltydd yn cael rhif achos unigryw ac yn agor cronfa ddata diogel. Mae'r adran gychwynnol o'r gronfa ddata sy'n ymwneud â'r rhif achos unigryw wedi'i diogelu gan gyfrinair a dyma'r unig ran o'r gronfa ddata sy'n cynnwys data y gellir ei ddefnyddio i adnabod y claf e.e. enw, cyfeiriad a dyddiad geni.
3. Cysylltu â chyswllt allweddol dynodedig yr holl sefydliadau perthnasol am ragor o wybodaeth drwy anfon llythyr esboniadol (ffurflen ddiwygiedig DRD2 – gweler atodiad 2) ac atodi holiadur profforma safonol gan ddefnyddio'r Rhif Achos Unigryw (DRD3 ddiwygiedig – gweler atodiad 3). Mae'r llythyr yn gofyn i bawb ddychwelyd yr holl wybodaeth at y Cydgysylltydd o fewn pum diwrnod gwaith gan ddefnyddio'r rhif achos unigryw ac nid data sy'n datgelu manylion adnabod y claf.
4. Yn ogystal â cheisiadau am wybodaeth, mae darparwyr a staff rheng flaen yn monitro ac yn cynnig cymorth priodol, neu'n gwneud atgyfeiriadau i gymorth priodol, ar gyfer holl gysylltiadau neu gyfoedion agos y person sydd wedi marw sy'n gofyn am hynny.
5. Ar gyfer pob sefydliad perthnasol, mae'r Cydgysylltydd yn monitro:
 - Dyddiad y cais am wybodaeth.
 - Dyddiad cau ar gyfer dychwelyd gwybodaeth.
 - Dyddiad y caiff y wybodaeth ei dychwelyd.
 - Gwybodaeth mewn perthynas â sefydliadau oedd mewn cysylltiad â'r person sydd wedi marw. Os nad oedd y sefydliad mewn cysylltiad, bydd angen ticio'r opsiwn ddim yn hysbys i'r sefydliad hwn.

- Bod y Crwner a'r Cydgysylltydd yn gweithio ar y cyd, lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod gwybodaeth ar gael sy'n berthnasol i'r ymchwiliad.

6. Mae'r adroddiad achos gyda'r Rhif Achos Unigryw yn cael ei lunio, gan nodi amgylchiadau'r farwolaeth, yr hanes o gamddefnyddio sylweddau, tocsicoleg ac unrhyw fanylion allweddol eraill.

7. Caiff cyfarfod adolygu'r achos amlddisgyblaethol ei alw ar gyfer yr holl sefydliadau perthnasol er mwyn adolygu'r dystiolaeth a phennu pwyntiau dysgu/argymhellion i newid arferion.

8. Cyflwyno pwyntiau dysgu/argymhellion ar gyfer newid arferion i'r Grŵp Lleihau Niwed ehangach, y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol.

D.5. Fel y nodwyd eisoes, os bydd y farwolaeth yn digwydd ymhlith un o gleifion presennol y GIG, yna bydd y Swyddog Awdurdodedig yn cynnal adolygiad o Ddigwyddiad Anffafriol Difrifol ond dylai sicrhau bod adroddiad achos dienw (gan ddefnyddio Rhif Achos Unigryw) yn cael ei gwblhau yn ogystal â'r pwyntiau dysgu/argymhellion, a'i fod ar gael i arweinydd y Grŵp Lleihau Niwed er mwyn rhannu'r canfyddiadau.

9. Bob blwyddyn, bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn casglu ac yn dadansoddi'r data crynswth o adolygiadau achos, a data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac np-SAD. Bydd hyn yn cynnwys marwolaethau yn y carchar a'r ddalfa. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn y 'Proffil blynyddol o alcohol a chyffuriau yng Nghymru' a'i gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno gan Gyffuriau i'w drafod ymhellach.

5.2 Achosion o wenwyno nad ydynt yn angheuol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau

(Mae map amlinellol o'r broses ar gyfer achosion o wenwyno nad ydynt yn angheuol ar gael yn Atodiad 4b).

1. Y gwasanaeth allgymorth, y gwasanaeth Ambiwlans, staff yr Adran Achosion Brys, darparwyr NSP a/neu gyfoedion i hysbysu Cydgysylltydd Adolygu'r Achos (Cydgysylltydd) o fewn y grŵp Lleihau Niwed am achosion o wenwyno nad ydynt yn angheuol.

2. Mae'r Cydgysylltydd yn cael Rhif Achos Unigryw ac yn agor cronfa ddata am achos o wenwyno nad yw'n angheuol – dim ond data dienw am y claf sy'n cael ei gofnodi e.e. demograffeg yn cynnwys oedran, rhyw, yr ardal lle mae'n byw.

3. Mae'r Cydgysylltydd yn neilltuo unigolyn allweddol o wasanaeth darparu perthnasol i ymgysylltu â'r person sydd wedi profi achos o wenwyno nad yw'n angheuol. Dylid cynnig cymorth ac ymyriadau gan gynnwys darparu Nalocson ar gyfer y cartref os yw'n berthnasol a chynnig cyswllt trothwy isel parhaus neu atgyfeiriad i wasanaethau arbenigol.

4. Bydd yr unigolyn allweddol yn adrodd yn ôl i'r Cydgysylltydd am natur y gwenwyno a'r ymyriadau a ddarparwyd, a dylid cofnodi'r wybodaeth hon ar y gronfa ddata ynghyd â'r Rhif Achos Unigryw.

5. Dylid cynnal adolygiadau rheolaidd o natur ac amllder yr achosion lleol nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau gan ddefnyddio data o'r gronfa ddata fel cofnod cywir, er mwyn nodi unrhyw dueddiadau a chanfod presenoldeb unrhyw ardaloedd â phroblemau y gellir eu targedu wedyn ar gyfer ymyriadau iechyd a gwaith allgymorth penodol. Dylid cofnodi pwyntiau dysgu ac argymhellion.

6. Dylid cyflwyno'r data crynswth, yn ogystal ag unrhyw bwyntiau dysgu ac argymhellion i'r Grŵp Lleihau Niwed ehangach, y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno gan Gyffuriau. Dylid gweithredu'r argymhellion unwaith y cytunir arnynt yn ffurfiol.

7. Bob blwyddyn, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn casglu ac yn dadansoddi'r data crynswth o adolygiadau achos (angheuol ac nad ydynt yn angheuol), y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac np-SAD. Byd hyn yn cynnwys marwolaethau yn y carchar a'r ddalfa ynghyd ag achosion nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn y gymuned. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn y 'Proffil blynyddol o alcohol a chyffuriau yng Nghymru' a'i gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau i'w drafod ymhellach.

Cyfeiriadau

1. Llywodraeth Cymru (2013) Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed Camddefnyddio Sylweddau – Cynllun Cyflawni 2013 – 2015 (Canlyniad 3.1). Ar gael yn: www.wales.gov.uk/docs/substancemisuse/publications/130219StrategyDeliveryPlan13-15en.pdf
2. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005). Canllaw ar ddatblygu adolygiadau cyfrinachol lleol ar farwolaethau'n berthynol i gyffuriau yng Nghymru. Ar gael yn: www.wales.gov.uk/dsjlg/publications/communitysafety/guidancedrugdeaths/guidancee?lang=en
3. Llywodraeth Cymru (2008) 'Siarad â fi' Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Leihau Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru 2009-2014. Ar gael yn: www.wales.gov.uk/docs/phhs/publications/talktome/091102talktomeen.pdf
4. Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (2012). Deaths in Custody report August 2011. Ar gael yn: www.ipcc.gov.uk/en/Pages/deathscustodystudy.aspx
5. Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf dros Gymru a Lloegr. Fatal Incidents reports. Ar gael yn: www.ppo.gov.uk/fatal-incident-reports.html
6. Yr Adran Iechyd (2001). *The Government Response to the Advisory Council on the Misuse of Drugs Report into Drug Related Deaths*, Y Llyfrfa, Llundain.
7. Llywodraeth Cymru (2010) Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru. Ar gael yn: www.wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/commsafety/101310misuseservicesen.pdf
8. Llywodraeth (2013). Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau Compendiwm Iechyd a Lles. Ar gael yn: www.wales.gov.uk/docs/dhss/publications/130705substanceen.pdf
9. Best D et al. (2001). Overdosing on opiates. *Drug and Alcohol Findings* 5: tt.5-18
10. Ghodse H et al. (1986). *A comparison of drug-related problems in London accident and emergency departments 1975-1982*. *Br J Psychiatry* 148: tt.658-62
11. Ryan J. (2000) *Drug related deaths in the community: a preventative role for accident and emergency departments?* *Journal of Accident and Emergency Medicine* 17: tt.272-273
12. East Riding Safer Communities (2009). Drug Related Death Operational Procedures. Ar gael yn: www.nta.nhs.uk/uploads/eastridingoperationalprocedures.pdf
13. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. *Anonymisation: Managing data protection risk: code of practice*. Ar gael yn: www.ico.org.uk/for_organisations/data_protection/topic_guides/~/_media/documents/library/Data_Protection/Practical_application/anonymisation-codev2.pdf
14. Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) (2013). Ar gael yn: www.waspi.org/page.cfm?orgid=702&pid=50458

15. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013). *Deaths Related to Drug Poisoning in England and Wales, 2012*. Ar gael yn: www.ons.gov.uk/ons/rel/subnational-health3/deaths-related-to-drug-poisoning/2012/stb--deaths-related-to-drug-poisoning-2012.html
16. Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (2013). *Substance Misuse in Wales 2012-13. Profile of substance misuse related education, health and criminal justice statistics*. Ar gael yn: www.wales.gov.uk/docs/dhss/publications/131031pr/filesmeduhealthjusten.pdf
17. Prifysgol Manceinion (2013). *The National Confidential Inquiry into Suicide and Homicide by People with Mental Illness. Annual report*. Ar gael yn: www.bbmh.manchester.ac.uk/cmhr/centreforsuicideprevention/nci/reports/AnnualReport2013_UK.pdf
18. Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (2006). *Needs Assessment of Harm Reduction and Health Care services for Substance Misusers across Wales*. Ar gael yn: www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/BloodBorneVirusesDocs.nsf/Wales.pdf
19. Bennett, T, Holloway K & Bird SM. (2014). *Does take-home Naloxone reduce non-fatal overdose?* The Lancet, 383 (9912): pp124-125

Ffurflen (ddiwygiedig) DRD 1

I'w chwblhau gan Gydgysylltydd Adolygu'r Achos

Rhif Unigryw'r Achos

Rhif adnabod y Crwner

Enw

**Enwau eraill: enw gwahanol
neu ffugenwau**

Rhyw

Gwryw

Benyw

Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

Dyddiad marw (DD/MM/BBBB)

Oed yn marw

Cyfeiriad cartref

Cod post

Ethnigrwydd

Gwyn		Du Affricanaidd	
Du Caribiaidd		Du arall	
Isgyfandir India		Anhysbys	
Arall – nodwch:			

Trefniadau byw

Byw ar ei ben ei hun		Gyda phartner	
Gyda phartner a phlant		Gyda phlant, heb bartner	
Gyda rhieni		Gyda ffrindiau	
Amlfeddiannaeth		Hostel	
Digartref ar y stryd		Anhysbys	
Arall – nodwch:			

System Cyfiawnder Troseddol

Carchar		Prawf	
Cadw yn y ddalfa			

Os bu yn y ddalfa yn y mis cyn iddo/iddi farw, rhowch fanylion y lleoliad, am faint y bu yn y ddalfa a'r dyddiad rhyddhau

--

Man Marw

Ble canfuwyd yr unigolyn?

Gartref		Cartref rhywun arall	
Man cyhoeddus – dan do		Man cyhoeddus – yr awyr agored (Ee parc, maes parcio, ac ati)	
Hostel			
Arall – nodwch:			

Cyffuriau ar y safle (yn cynnwys cyffuriau presgripsiwn)?

Oedd

Nac
oedd

Os OEDD, rhestrwch:

Eitemau cysylltiedig â chyffuriau ar y safle?

Oedd

Nac
oedd

Os OEDD, manylwch:

Ble cafodd yr unigolyn ei ddatgan yn farw?

Ar y safle

Adran Damweiniau ac Achosion Brys

Ysbyty

Manylion unrhyw ymgais i'w ddadebru (e.e. CPR, hylifau/cyffuriau a roddwyd):

Am faint fu'r unigolyn yn yr ysbyty cyn marw?

Amherthnasol

Oriau

Diwrnodau

Cysylltiad diweddaraf â gwasanaethau cyn marw	0 fewn 24 awr	1-6 diwrnod	1 wythnos	1 wythnos i 1 mis	1 i 6 mis	Mwy na 6 mis	Aros am fynediad	Dim cysylltiad â gwasanaeth
Meddyg Teulu								
Adran Damweiniau ac Achosion Brys								
Gwasanaeth Ambiwlans								
Iechyd meddwl								
Gwasanaeth Trin Cyffuriau ac Alcohol								
Llawfeddyg yr Heddlu								
Yr Heddlu								
Atgyfeirio ar ôl Arestio								
Gwasanaeth Prawf								
Carchar								
Gwasanaethau Cymdeithasol								
Tim Troseddwyr Ifanc								
Gwasanaeth Addysg								
Gwasanaeth Ieuentid								
Asiantaethau Gwirfoddol								
Hosteli								
Grwpiau Defnyddwyr								
Arall								

Tocsicoleg

Samplau a brofwyd (e.e. gwaed, wrin):

--

Profion a wnaed (e.e. alcohol, cyffuriau sy'n cael eu camddefnyddio, sylweddau anweddol, sgrinio cyffredinol)

--

Canlyniadau

		Crynodiad yn y Gwaed	Crynodiad yn yr Wrin
Morffin/Heroin			
Opiadau eraill			
Methadon			
Alcohol			
Bensodiasepinau			
Cocên			
Amffetaminau			
MDMA/MDEA			
Sylweddau anweddol			
Sylweddau eraill – nodwch:			

Patholeg

Tystiolaeth o anaf

Manylion:

Histoleg

Do Naddo

Achos meddygol y farwolaeth

1a 1b 1c II

Dyfarniad y crwner/canlyniad yr achos llys

Dyddiad y cwest

Manylion cyflyrau meddygol:

Manylion cyflyrau meddygol corfforol (e.e. Asthma, Epilepsi, Diabetes)

Manylion cyflyrau seiciatrig

Manylion defnydd o gyffuriau (hyd a natur y defnydd, hanes chwistrellu cyfredol/yn y gorffennol, ac ati)

A oes tystiolaeth fod yr ymadawedig yn yfed alcohol yn beryglus?
(Peryglus = yfed mwy o unedau o alcohol bob wythnos nag sy'n cael ei argymhell)

Oes Nac oes Ddim yn gwybod

A oes tystiolaeth fod yr ymadawedig yn yfwr alcohol dibynnol?
(Dibynnol = yn cael symptomau amddifadu corfforol wrth beidio ag yfed alcohol)

Oes Nac oes Ddim yn gwybod

A oedd yr ymadawedig yn cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn?

Oedd Nac oedd Ddim yn gwybod

Os oedd, rhowch enwau'r cyffuriau a'r dos, a phryd y cafodd ei gyflenwad diwethaf:

Os oedd yr ymadawedig yn cymryd opiadau neu feddyginiaethau yn lle opiadau ar bresgripsiwn, pwy roddodd y presgripsiwn?

A oedd yr opiadau neu feddyginiaethau yn lle opiadau ar bresgripsiwn yn cael eu cymryd dan oruchwyliaeth?

Llofnod:

Enw Llawn:

Cydgysylltydd Adolygu'r Achos

Dyddiad:

Ffurflen (ddiwygiedig) DRD2

Cyfeiriad

Manylion Cydgysylltydd
Adolygu'r Achos

Annwyl Gydweithiwr,

Adolygu Achosion Angheuol o Wenwyno gan Gyffuriau

Mae [Bwrdd Cynllunio Ardal/Grŵp Lleihau Niwed y bwrdd iechyd perthnasol] wedi creu Proses ar gyfer Adolygu Achosion Angheuol o Wenwynau gan Gyffuriau i ymchwilio i'r marwolaethau hyn yn lleol, er mwyn gwneud argymhellion a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau a lleihau achosion pellach o wenwyno angheuol ac nad yw'n angheuol yn sgil cyffuriau. Mae'r adolygiad o achosion yn ymchwilio i amgylchiadau unigolion sy'n marw o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau (sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a chyffuriau presgripsiwn).

Cyfrinachedd

Dim ond drwy [Bwrdd Cynllunio Ardal/Grŵp Lleihau Niwed y bwrdd iechyd perthnasol] i'w aelodau y bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu dosbarthu er mwyn gweithredu'n fewnol. Ni fyddant yn cael eu rhannu'n ehangach â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau ac eithrio fel cyngor neu ganllawiau cyffredinol gyda'r nod o leihau risg neu wella gwasanaethau, fel yr argymhellir yn yr adolygiad.

Mae holiadur safonol wedi'i amgáu yn ymwneud â marwolaeth:

[Enw'r Ymadawedig]

[Dyddiad Geni]

[Rhif Unigryw'r Achos]

(yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael. Rhif unigryw'r achos yn orfodol)

[Dyddiad y digwyddiad]

[Amser y digwyddiad]

[Lleoliad y digwyddiad]

(os aeth ambiwlans yno)

Mae'r holiadur yn cael ei anfon at yr holl asiantaethau perthnasol. Mae'n cynnwys cwestiynau am gyswllt â'r ymadawedig a gwybodaeth am wasanaethau eraill fu'n ymwneud â'r ymadawedig. Bydd yr ymatebion yn sail i'r broses adolygu, fel bod modd dysgu gwersi. **Gofalwch fod y ffurflen yn cael ei llenwi gan y bobl yn eich sefydliad fu'n ymwneud fwyaf â'r ymadawedig.**

Llenwch a dychwelwch yr holiadur o fewn 5 diwrnod gwaith, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall. Mewn unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol, rhaid i chi gyfeirio at y sawl a enwir gan ddefnyddio Rhif Unigryw'r Achos, sef [Rhif Unigryw'r Achos]. Cysylltwch â mi os byddwch angen rhagor o gymorth.

Diolch am eich cymorth.

Yn gywir

[Enw a manylion llawn Cydgysylltydd Adolygu'r Achos]

Ffurflen (ddiwygiedig) DRD 3

Rhif Unigryw'r Achos (I'w gwblhau gan Gydgysylltydd Adolygu'r Achos)

C1: Beth yw enw'ch sefydliad?

C2: A oedd yr unigolyn a enwir yn hysbys i'ch gwasanaeth?

Oedd

Nac oedd

Os mai "Nac oedd" yw'ch ateb i C2 – dychwelwch yr holiadur i Gydgysylltydd Adolygu'r Achos.

C3: Beth oedd y prif reswm dros gysylltiad yr unigolyn a enwir â'ch gwasanaeth? **(Ticiwch un blwch)**

Triniaeth lechyd Meddwl (Oedolion)		Cymorth Cyflogaeth ac Addysg	
Triniaeth lechyd Corfforol		Cymorth Tai	
Cymorth a Thriniaeth Cyffuriau		Cymorth Ariannol	
Cymorth a Thriniaeth Alcohol		Cymorth Teulu a Pherthynas ag Eraill	
Cyfiawnder Troseddol (Cymunedol)		Cymorth Seicolegol/Cwmsela	
Cyfiawnder Troseddol (Dalfa)		Tîm Troseddwyr Ifanc	
Atgyfeirio ar ôl Arestio		CAMHS	
Cymorth Gofal Cymdeithasol		Diogelu	
Arall – nodwch:			

C4: Pa gymorth a roddodd eich gwasanaeth i'r sawl a enwir?
(Ticiwch bob un sy'n berthnasol):

Presgripsiwn i amnewid opiad		Presgripsiwn am feddygyniaeth (amnewid heb fod yn opiad)	
Triniaeth Feddygol Frys		Cymorth gydag Anghenion Gofal Personol/Cartref/ Cymorth Cymdeithasol	
Cyngor Iechyd		Gwaith Ymddygiad Troseddwyr	
Ymgynghoriad/Triniaeth Iechyd Arbenigol		Cymorth i Ddiodefwr	
Ymyriadau Byr		Diogelu	
Cyngor ar Leihau Niwed		Cymorth a Chyngor Tai/Ariannol	
Ymyriad i Leihau Niwed (ee cyfnewid nodwyddau)		Ymyriad Seico-gymdeithasol	
Cymorth Iechyd meddwl			
Arall – nodwch:			

C5: Dyddiad y cysylltiad cyntaf â'ch gwasanaeth (dd/mm/bbbb)

C6: Dyddiad y cysylltiad diweddaraf â'ch gwasanaeth (dd/mm/bbbb):

Os na chawsoch gysylltiad â'r unigolyn yn y 6 mis diwethaf, peidiwch ag ateb y cwestiynau nesaf ond dychwelwch yr holiadur at Gydgysylltydd Adolygu'r Achos.

C7: Rhestrwch BOB ymyriad a gynigiwyd i'r unigolyn gan eich gwasanaeth yn y chwe mis diwethaf cyn ei farwolaeth, a nodwch pa rai a dderbyniwyd gan yr unigolyn:

C8: Os oeddech yn rhoi presgripsiwn, nodwch BOB meddyginiaeth a roesoch ar bresgripsiwn yn y 6 mis diwethaf (yn cynnwys y dos) (mae crynodeb wedi'i brintio o'r feddyginiaeth a roddwyd ar bresgripsiwn yn dderbyniol):

C9: A wnaethoch chi neu rywun arall yn eich sefydliad atgyfeirio'r unigolyn at unrhyw wasanaethau eraill? Nodwch:

C10: Rhestrwch unrhyw wasanaethau eraill y gwyddoch i'r unigolyn fod mewn cysylltiad â nhw (yn y 6 mis diwethaf)

C11: Nodwch unrhyw rwystrau a allai fod wedi atal yr unigolyn rhag defnyddio gwasanaethau eraill yn y 6 mis diwethaf, yn eich barn chi (Ticiwch bob un sy'n berthnasol):

Pellter Teithio/Dim Cludiant		Dim Cyfeiriad a Rhif Ffôn Dibynadwy ar gyfer y Cleient	
Salwch Corfforol		Lefel y Defnydd o Sylweddau (Cyffuriau ac Alcohol) Adeg Atgyfeirio	
Salwch Meddwl		Gwall Sefydliadol	
Hyd y Rhestr Aros		Ddim yn Gallu Darllen a/neu Ysgrifennu	
Arian		Cyfiawnder Troseddol/Troseddu	
Arall – nodwch:			


C12: (Ymarferwyr Gofal Sylfaenol yn unig) Ar sail eich nodiadau a'ch arsylwadau meddygol, disgrifiwch eich ymwneud chi â'r ymadawedig a'ch casgliadau ynglŷn ag achos y farwolaeth lle bo hynny'n berthnasol:

C13: Nodwch unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol isod:

Diolch am lenwi'r holiadur hwn – dychwelwch ef at Gydgysylltydd Adolygu'r Achos.


Atodiad 4a

Map amlinellol o'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau o achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau



Atodiad 4b

Map amlinellol o'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau o achosion nad ydynt yn angheuol o wenywyo gan gyffuriau



Strwythurau a phrosesau blaenorol cyn 2014

Yn sgil cyhoeddi'r ddogfen 'Canllaw ar ddatblygu adolygiadau cyfrinachol lleol ar farwolaethau'n berthynol i gyffuriau yng Nghymru'² gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005, sefydlwyd paneli adolygu Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau (DRD) ar y cyd ag ardaloedd yr Heddluoedd yng Nghymru.

Ymhlith yr aelodau o'r paneli adolygu DRD mae:

- Y Gwasanaeth Prawf
- Yr Heddlu
- Patholegydd
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Clinigwyr arbenigol camddefnyddio sylweddau (Meddygon a Nyrs)
- Rheoli triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau
- Meddygon Ymgynghorol Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys
- Fferylllydd
- Gwasanaeth y Crwner
- Iechyd y Cyhoedd
- Llywodraeth Cymru.

Roedd proses adolygu'r DRD yn ddeublyg ac fe'i cychwynnwyd ar ôl y cwest:

- Nodi pob marwolaeth yr oedd cyffuriau wedi cyfrannu ati a chofnodi gwybodaeth sylfaenol ar gronfa ddata gyfrinachol drwy ffurflenni DRD1.
- O'r gronfa ddata hon, nodwyd pob marwolaeth a oedd yn rhan o ddiffiniad y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau⁴, casglwyd data (gan ddefnyddio holiaduron DRD 3) a dewiswyd sampl o'r marwolaethau hyn ar gyfer adolygiadau cyfrinachol trylwyr er mwyn pennu pa wersi y gellid eu dysgu i atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn y dyfodol.

Ynghyd â'r aelodau o'r paneli DRD, neilltuwyd un Cydgysylltydd DRD cyfwerth ag amser cyflawn ac un cyswllt yr heddlu 0.3 cyfwerth ag amser cyflawn i'r gwaith hwn.

O ganlyniad i adolygiad ar ôl y cwest, roedd oedi sylweddol rhwng diwrnod y farwolaeth a diwrnod yr adolygiad cyfrinachol.

Mae'r canfyddiadau sydd ar gael hyd yma o'r paneli DRD rhanbarthol a'r Grŵp Monitro Cenedlaethol ar gael ar-lein yn: www.wales.gov.uk/topics/?skip=1&lang=cy

Yn dilyn blynyddoedd lawer o gynnydd ac ysgogi amrywiaeth o ymyriadau effeithiol wedi'u hanelu at leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, yn cynnwys rhoi rhaglen Nalocson ar gyfer y cartref ar waith, cynhaliwyd gweithdy Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Chyffuriau ar 20fed Mehefin 2012. Yn y cyfarfod hwn, gwnaed cyfres o argymhellion ar gyfer cynnydd yn y dyfodol fel y nodir isod:

- Dylai'r Byrddau Cynllunio Ardal ystyried cyfuno eu Rhwydwaith Gwybodaeth Lleol a'u grwpiau Lleihau Niwed a Marwolaethau yn sgil Cyffuriau yn rhanbarthol.
- Dylid adolygu ffurflen DRD3.
- Dylid adolygu'r canllawiau Marwolaethau yn Sgil Cyffuriau er mwyn ystyried ehangu cwmpas yr adolygiadau a lleihau dyblygu gydag adolygiadau Digwyddiadau Anffafriol Difrifol.
- Dylid rhannu gwybodaeth/rhybuddion cynnar o ran sylweddau newydd gyda thocsicolegwyr.
- Dylid trafod a oes rôl cydgysylltu genedlaethol ar gyfer lechyd Cyhoeddus Cymru.
- Dylid trafod cofnodi'r holl farwolaethau yn sgil cyffuriau mewn un man gydag ystadegau iechyd.
- Dylid pwysleisio'r ffaith bod yr adolygiadau yn ddiennw a bod angen dysgu gwersi yn hytrach na beio eraill yn gyffredinol ymhlith meddygon teulu a sefydliadau perthnasol eraill.
- Dylid cynnal cyfarfodydd cenedlaethol yng Nghaerdydd i annog mwy o bobl i fod yn bresennol.
- Dylid archwilio a oes modd cynnal ymchwiliad cenedlaethol ynghylch marwolaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn yr un modd â'r ymchwiliad cenedlaethol i hunanladdiad.

Yn ogystal â'r argymhellion hyn, nodwyd nifer o feysydd pryder:

- Cynrychiolaeth wael mewn cyfarfodydd DRD – ar ôl brwdfrydedd cychwynnol.
- Roedd oedi cyn cael gwybodaeth am farwolaeth yn cael braidd dim effaith.
- Posibilrwydd y gallai'r paneli DRD ganolbwyntio yn rhy fanwl ar achosion unigol yn hytrach nag ar themâu ac argymhellion allweddol.
- Diffyg eglurder o ran rôl y panel DRD gan rai aelodau.
- Diffyg blaenoriaeth i ganfyddiadau ac argymhellion o fewn Byrddau Cynllunio Ardal.
- Ailadrodd gwaith yn arbennig gyda Digwyddiadau Anffafriol Difrifol.
- Roedd angen llai o grwpiau gyda dull mwy rhanbarthol.

Data sylfaenol ar nifer yr achosion yng Nghymru 2012

Achosion o wenwyno gan gamddefnyddio cyffuriau cyffuriau ac anghheuol


Mae'r data ar achosion anghheuol o wenwyno gan gyffuriau wedi'i ddarparu gan ddau gorff cenedlaethol: y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'r Rhaglen Genedlaethol ar Farwolaethau yn sgil Camddefnyddio Sylweddau (np-SAD). Bydd y cyrff hyn yn defnyddio diffiniadau gwahanol (gweler atodiad 7).

Yn ôl ONS, mae 'data ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau', yn cynnwys cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon fel ei gilydd – codau ICD-10 ar gyfer marwolaethau yn sgil cyffuriau yn cynnwys:

- Anhwylderau meddwl ac ymddygiad yn sgil defnyddio cyffuriau (ac eithrio alcohol a thybaco).
- Gwenwyno damweiniol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol.
- Hunanwenwyno bwriadol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol.
- Gwenwyno gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol – bwriad amhendant.
- Ymosodiad gan ddefnyddio cyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol.

Dim ond cyffuriau anghyfreithlon sydd wedi'u hystyried o fewn 'data ar farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau' ONS. Gan ddefnyddio'r diffiniad ar gyfer marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau⁶ bu farw cyfanswm o 19,946 o bobl yng Nghymru a Lloegr rhwng 2001 a 2012, ac o'r nifer hon roedd tua 6.6% (n=1,325) ymhlith trigolion Cymru.¹⁵ Heroin/morffin oedd achos marwolaeth* y rhan fwyaf o'r cofnodion gwenwyno anghheuol yn sgil camddefnyddio cyffuriau ac yng Nghymru, dros yr un cyfnod, dyma oedd yn gyfrifol am dros 44% o'r marwolaethau fel y nodir yn Siart 1.

Siart 1 – Achosion angheuol o wenwyno yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ôl cyffur rhwng 2001 a 2012




ONS 2012 *Data wedi'i roi'n uniongyrchol i lechyd Cyhoeddus Cymru
 D.S. dim ond y cyffuriau hynny sy'n gyfrifol am 5 marwolaeth neu fwy sydd ar y graff.
 Roedd y 34 marwolaeth arall yn cynnwys 24 o gyffuriau eraill.

Rhwng 2001 a 2012, roedd nifer yr achosion angheuol o wenwyno yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru bob blwyddyn yn amrywio ond roedd tueddiad cynyddol fel y nodir yn Siart 2. Fodd bynnag, yn 2011 a 2012, mae nifer yr achosion angheuol o wenwyno yn sgil camddefnyddio cyffuriau wedi gostwng 9.9% yn 2011 (o 152 o farwolaethau yn 2010 i 137 yn 2011) a 4.4% (i 131 o farwolaethau) yn 2012.¹⁵ Gall y gostyngiad cymharol yn nifer yr achosion angheuol o wenwyno gan heroin/morffin a/neu effaith a'r defnydd o Nalocson ar gyfer y cartref mewn achosion o wenwyno gan boenladdwyr opioid fod yn gyfrifol am hyn, er gwaethaf cynnydd yn nifer yr achosion angheuol o wenwyno gan fethadon.

Roedd gwenwyno yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn gyfrifol am 61.2% o gyfanswm yr achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau (n=214) yng Nghymru yn 2012.¹⁵

Siart 2 – Cyfanswm yr achosion anghedul o wenwyno yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ôl blwyddyn ac ôl yr opioid penodol (heroin/morffin a methadon) rhwng 2001 a 2012



ONS 2012 *Data wedi'i roi'n uniongyrchol i lechyd Cyhoeddus Cymru.

Ceir amrywiaeth rhanbarthol amlwg, ar y cyfan, yn y data ar achosion anghedul o wenwyno yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru ar gyfer 2012. Mae cyfraddau'r achosion anghedul o wenwyno yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn amrywio o 7.64 o bob 100,000 o bobl yn ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf i 2.19 o bob 100,000 o bobl yn ardal fwy gwledig Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.¹⁶

Hunanladdiad

Yng Nghymru, rhwng 2001 a 2011, cafodd cyfanswm o 3,450 o farwolaethau ymhlith y boblogaeth gyffredinol eu cofnodi fel hunanladdiad neu farwolaeth amhendant. O blith y rhain, roedd 22% o ganlyniad i hunanwenwyno (gorddos).¹⁷ Yn ystod yr un cyfnod, nodwyd bod 23% o'r achosion o hunanladdiad ymhlith y boblogaeth gyffredinol yn hunanladdiad gan gleifion, h.y. hunanladdiad ymhlith y rheini oedd wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y 12 mis blaenorol.¹⁷ Ymhlith y boblogaeth hon o gleifion, bu farw 24% o ganlyniad i hunanwenwyno. Opiadau a gwrthiselyddion trichylch oedd y sylweddau a oedd yn bennaf cyfrifol, gan gyfrif am 21% ac 14% o'r farwolaethau oherwydd hunanladdiad, yn y drefn honno. Roedd 56% o'r achosion o hunanladdiad gan gleifion ymhlith cleifion â hanes o gamddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol yng Nghymru rhwng 2001 a 2011: 48% (n=380) â hanes o gamddefnyddio alcohol; 33% (n=258) â hanes o gamddefnyddio cyffuriau. Yn 2011, roedd tua 25 achos o hunanladdiad lle'r oedd gan y claf hanes o gamddefnyddio cyffuriau a lle'r oedd ganddo gysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl o fewn y 12 mis blaenorol.¹⁷

Yn seiliedig ar ddata ONS a roddwyd yn uniongyrchol i lechyd Cyhoeddus Cymru, yn 2012, cofnodwyd cyfanswm o 39 o farwolaethau yn sgil cyffuriau fel achosion o hunanwenwyno bwriadol. O'r rhain, roedd 41% (n=16) wedi'u

cofnodi yn farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau a chawsant eu cofnodi fel hunanwenwyno bwriadol (hunanladdiad) ac roedd 8.7% arall (n=12) o fwriad amhendant.¹⁶

Marwolaethau yn y ddalfa yn sgil Cyffuriau

Dalfa'r heddlu – Achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau, yn y ddalfa neu ar ôl bod yn y ddalfa

Mae achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau naill ai yn nalfa'r heddlu, neu ar ôl bod yn y ddalfa, yn cael eu cyfeirio at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) i'w hadolygu. Mae adroddiadau ar farwolaethau yn y ddalfa, gan gynnwys gwenwyno gan gyffuriau, hyd at 2010 wedi'u cyhoeddi.⁴

Y Carchar – Achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn y carchar

Mae Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn adolygu achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn y carchar ac, ar ôl pob adolygiad, mae'r argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r holl garchardai ac maent ar gael yn gyhoeddus.⁵ Mae Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi (PSI 64/2011) ar gyfer Dalfa Fwy Diogel i'w ddefnyddio ar draws yr ystad carchardai ledled Cymru a Lloegr yn darparu camau gweithredu gorfodol i garchardai eu cymryd ac mae'n cynnwys camau gweithredu yn dilyn unrhyw farwolaeth yn y ddalfa. Mae hyn yn cynnwys carcharorion a gaiff eu rhyddhau ar drwydded dros dro am resymau meddygol.

Achosion nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau

Mae gwaith ymchwil gan lechyd Cyhoeddus Cymru ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau ar hyn o bryd a phobl a arferai chwistrellu cyffuriau yng Nghymru yn dangos bod 42% wedi profi achos o wenwyno nad oedd yn angheuol o leiaf unwaith wrth ddefnyddio cyffuriau.¹⁸ Mae straeon gan gyfranogwyr ynglŷn â'r ffactorau a arweiniodd at achosion o wenwyno nad oeddent yn angheuol yn cyd-fynd â'r risgiau hysbys, gan gynnwys rhyddhau diweddar o'r carchar a chymysgu opiadau gydag alcohol a/neu bensodiasepinau. Ar ben hynny, wrth edrych yn fanylach ar y dystiolaeth ansoddol a ddarparwyd gan ddefnyddwyr cyffuriau ynglŷn â'u profiadau blaenorol o wenwyno nad oedd yn angheuol, roedd yn amlwg mai ymgais fwriadol i gyflawni hunanladdiad yn hytrach na gwenwyno damweiniol oedd cyfran helaeth o'r achosion hyn.¹⁸

Mae gwaith a wnaed yn 2013 ar achosion o orddos nad oeddent yn angheuol ymhlith pobl sy'n chwistrellu poenladdwyr opioid yng Nghymru yn arwain at gyfraddau tebyg, gyda 47% o'r ymatebwyr yn nodi o leiaf un achos angheuol blaenorol o wenwyno gan gyffuriau. Ymhlith y rhain, roedd 32% wedi profi dau achos o wenwyno nad oeddent yn angheuol, ar gyfartaledd, yn ystod y 12 mis blaenorol.¹⁹ Gall canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn a gwaith pellach gefnogi'r wybodaeth a'r cyngor sydd â'r nod o leihau nifer yr achosion angheuol ac nad ydynt yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru.

Diffiniadau o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau

Diffiniad yr ACMD

'Deaths where the underlying cause is poisoning, drug abuse or drug dependence and where any of the substances listed in the Misuse of Drugs Act 1971 (as amended) were involved'.⁶

Diffiniadau np-SAD o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau

Diffinnir achos np-SAD fel marwolaeth berthnasol lle mae unrhyw rai o'r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni mewn cwest, ymchwiliad i ddamwain angheuol neu ymchwiliad tebyg:

- Un neu fwy o sylweddau seicoweithredol* yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol** â'r farwolaeth;
- Hanes o gamddefnyddio neu fod yn ddibynol ar gyffuriau seicoweithredol;
- Cyffuriau a Reolir*** yn bresennol yn yr archwiliad post mortem; neu
- Achosion o farwolaethau oherwydd cyffuriau yn uniongyrchol ond cwest heb ei gynnal.

Mae marwolaethau o ganlyniad i doddyddion a sylweddau anweddol eraill yn unig wedi'u cynnwys hefyd. Fodd bynnag, rydym yn casglu gwybodaeth am yr achosion hyn ar wahân; mae rhagor o wybodaeth yn www.vsareport.org. Dim ond pan mae'n gyfrifol am farwolaeth ar y cyd â chyffuriau cymwys eraill y caiff alcohol ei gynnwys.

* Mae sylweddau "seicoweithredol" yn cael effaith uniongyrchol ar ganfyddiad, hwyl, gwybyddiaeth, ymddygiad neu weithrediad echddygol. Fel rheol maent yn cynnwys opiadau a phoenladdwyr opioid, cyffuriau cwsg, tawelyddion, gwrthiselyddion, cyffuriau epilepsi, cyffuriau gwrth-seicotig, rhythbeiriau, a symbylyddion (fel amffetaminau a chocên) a sylweddau "anterth cyfreithlon".

** Ystyr "cysylltu'n uniongyrchol" yw bod y crwner neu'r sawl sy'n ymchwilio i'r farwolaeth o'r farn bod cyffuriau wedi cyfrannu'n sylweddol at farwolaeth rhywun (e.e. drwy wenwyno neu feddwi), neu wedi effeithio ar ei allu i resymu a/neu ganfyddiad fel ei fod wedi cymryd risgiau na fyddai wedi'u cymryd yn sobor (e.e. meddwl ei fod yn gallu hedfan).

*** "Cyffuriau a Reolir" yw cyffuriau sy'n cael eu dosbarthu'n benodol gan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 fel y'i diwygiwyd gan ddeddfwriaeth ddiweddarach. Mae cyffuriau a reolir yn cynnwys poenladdwyr opioid, cocên, amffetaminau, canabis, GHB, rhythbeiriau a'r rhan fwyaf o bensodiasepinau.

Pwy sy'n camddefnyddio/yn ddibynol ar gyffuriau?

Diffinnir achos o rywun sy'n camddefnyddio/yn ddibynol ar gyffuriau fel rhywun sydd â hanes o gamddefnyddio sylweddau lle mae un neu fwy o'r meini prawf isod yn wir:

- Y crwner yn ei ddisgrifio fel defnyddiwr hysbys cyffuriau anghyfreithlon, yn seiliedig ar dystiolaeth y cwest;

- Wedi cael presgripsiwn meddyginiaeth gyfnewid am ei fod yn dibynnu ar gyffuriau;
- Cyffur anghyfreithlon yn bresennol yn y post mortem, nad oedd wedi'i roi ar bresgripsiwn;
- Unrhyw wybodaeth ychwanegol yn bresennol yn adroddiad y crwner sy'n awgrymu hanes o gamddefnyddio cyffuriau, ac os yw hanes o'r fath yn bodloni meini prawf ICD-10: – (F11-F16 ac F19, gan ddefnyddio'r israddau 4 cod sef .0 (meddwi aciwt), .1 (defnydd niweidiol), a .2 (syndrom dibyniaeth)).

Diffinio “camddefnyddio cyffuriau”

Caiff categorïau achos marwolaeth sydd wedi'u cynnwys yn y prif ddangosydd o farwolaethau yn sgil “camddefnyddio cyffuriau” a ddefnyddir i fonitro cynnydd yn erbyn strategaeth cyffuriau'r Llywodraeth eu diffinio yn ôl codau ICD-10 a Statws Cyffuriau a Reolir. Rhoddir y codau perthnasol o ICD-10 mewn cromfachau.

Mae'r diffiniad yn cynnwys dau fath o farwolaeth:

- a) marwolaethau lle mae achos sylfaenol y farwolaeth wedi cael cod sy'n cyd-fynd â'r categorïau canlynol o anhwylderau meddwl ac ymddygiad yn sgil defnyddio sylweddau seicoweithredol (ac eithrio alcohol, tybaco a thoddyddion anwedddol):
 - (i) opioidau (F11);
 - (ii) canabinoidau (F12);
 - (iii) tawelyddion neu gyffuriau cwsg (F13);
 - (iv) cocên (F14);
 - (v) symbylyddion eraill, yn cynnwys caffeine (F15);
 - (vi) rhithbeiriau (F16);
 - (vii) defnyddio sawl math o gyffur a defnyddio sylweddau seicoweithredol eraill (F19).
- b) marwolaethau sydd wedi cael cod yn ôl y categorïau canlynol a lle mae cyffur a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 wedi'i enwi ar y cofnod marwolaeth:
 - (i) Gwenwyno damweiniol yn sgil cyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol (X40-X44);
 - (ii) Hunanwenwyno bwriadol yn sgil cyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol (X60-X64);
 - (iii) Gwenwyno gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol – bwriad amhendant (Y10-14);
 - (iv) Ymosodiad gan ddefnyddio cyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol (X85);
 - (v) Anhwylderau meddwl ac ymddygiad o ganlyniad i ddefnyddio toddyddion ansoddol (F18).

Nodiadau:

1. Mae marwolaethau sydd wedi cael cod camddefnyddio opiad o ganlyniad i chwistrellu heroin halogedig wedi'u cynnwys yn y dangosydd. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a wneir yn yr Alban, lle caiff y marwolaethau hyn eu *heithrio*. Y rheswm dros hyn yw bod Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban (GROS) yn gallu nodi marwolaethau o ganlyniad i heroin halogedig, ond nid oes modd nodi'r marwolaethau hyn yn hawdd yng Nghymru a Lloegr. Yn ymarferol, yng Nghymru a Lloegr, dim ond mewn marwolaethau lle caiff y cyffur ei grybwyll ar y cofnod o farwolaeth a bod y farwolaeth wedi cael un o'r codau ICD ar gronfa ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o wenwyno sy'n gysylltiedig â chyffuriau, ac nid cod heintio, y cânt eu cynnwys.
2. Mabwysiadwyd rheolau penodol ar gyfer ymdrin â phoenladdwyr cyfansawdd sy'n cynnwys ychydig bach iawn o gyffuriau sydd wedi'u rhestru o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau – y prif rai yw decstropocsyffen, dihydrocodin a chodin. Lle caiff y cyffuriau hyn eu henwi ar gofnod o farwolaeth, maent wedi cael eu heithrio os ydynt yn rhan o boenladdwyr cyfansawdd (fel *co-procsamol*, *co-dydramol* neu *co-codamol*) neu foddion annwyd. Mae decstropocsyffen wedi'i eithrio'n gyfan gwbl, p'un a oes sôn am baracetamol neu boenladdwr cyfansawdd ai peidio. Y rheswm dros hyn yw nad yw decstropocsyffen prin byth ar gael, os o gwbl, heblaw fel rhan o gyfansoddion paracetamol. Fodd bynnag, cafodd codin neu dihydrocodin **ar eu pen eu hunain** eu cynnwys yn y dangosydd gan eu bod yn hawdd cael gafael arnynt a gwyddom fod pobl yn eu camddefnyddio yn y ffurf hon. Dyma resymeg y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban.
3. Mae cyffuriau a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn cynnwys cyffuriau dosbarth A, B ac C.

Codau ICD-10

Disgrifiad	Codau ICD-10
Anhwyllderau meddwl ac ymddygiad yn sgil defnyddio cyffuriau (ac eithrio alcohol a thybaco)	F11–F16, F18–F19
Gwenwyno damweiniol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X40–X44
Hunanwenwyno bwriadol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X60–X64
Ymosodiad gan ddefnyddio cyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X85
Gwenwyno gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol – bwriad amhendant	Y10–Y14

Categoriâu achos marwolaeth sydd wedi'u cynnwys yn y prif ddangosydd marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau (rhoddir y codau perthnasol o ICD-10 mewn cromfachau):

- a) marwolaethau lle mae achos sylfaenol y farwolaeth wedi cael cod sy'n cyd-fynd â'r categorïau canlynol o anhwylderau meddwl ac ymddygiad yn sgil defnyddio sylweddau seicoweithredol (ac eithrio alcohol, tybaco a thoddyddion anwedddol):
 - (i) opioidau (F11)
 - (ii) canabinoidau (F12)
 - (iii) tawelyddion neu gyffuriau cwsg (F13)
 - (iv) cocên (F14)
 - (v) symbylyddion eraill, yn cynnwys caffeine (F15)
 - (vi) rhithbeiriau (F16)
 - (vii) defnyddio sawl math o gyffur a defnyddio sylweddau seicoweithredol eraill (F19)

- b) marwolaethau sydd wedi cael cod yn ôl y categorïau canlynol a lle mae cyffur a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 wedi'i enwi ar y cofnod marwolaeth:
 - (i) Gwenwyno damweiniol yn sgil cyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol (X40-X44)
 - (ii) Hunanwenwyno bwriadol yn sgil cyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol (X60-X64)
 - (iii) Gwenwyno gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol – bwriad amhendant (Y10-Y14)
 - (iv) Ymosodiad gan ddefnyddio cyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol (X85)
 - (v) Anhwylderau meddwl ac ymddygiad o ganlyniad i ddefnyddio toddyddion ansoddol (F18)

Nodiadau:

1. Mae marwolaethau sydd wedi cael cod camddefnyddio opiad o ganlyniad i chwistrellu heroin halogedig wedi'u cynnwys yn y dangosydd. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a wneir yn yr Alban, lle caiff y marwolaethau hyn eu heithrio. Y rheswm dros hyn yw bod Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban (GROS) yn gallu nodi marwolaethau o ganlyniad i heroin halogedig, ond nid oes modd nodi'r marwolaethau hyn yn hawdd yng Nghymru a Lloegr. Yn ymarferol, yng Nghymru a Lloegr, dim ond mewn marwolaethau lle caiff y cyffur ei grybwyll ar y cofnod o farwolaeth a bod y farwolaeth wedi cael un o'r codau ICD ar gronfa ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o wenwyno sy'n gysylltiedig â chyffuriau, ac nid cod heintio, y cânt eu cynnwys.
2. Mabwysiadwyd rheolau penodol ar gyfer ymdrin â phoenladdwyr cyfansawdd sy'n cynnwys ychydig bach iawn o gyffuriau sydd wedi'u rhestru o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau – y prif rai yw decstropocsyffen, dihydrocodin a chodin. Lle caiff y cyffuriau hyn eu henwi ar gofnod o farwolaeth, maent wedi cael eu heithrio os ydynt yn rhan o boenladdwyr cyfansawdd (fel co-procsamol, co-dydramol neu co-codamol) neu foddion annwyd. Mae decstropocsyffen wedi'i eithrio'n gyfan gwbl, p'un a oes sôn am baracetamol neu boenladdwr cyfansawdd ai peidio. Y rheswm dros hyn yw nad yw decstropocsyffen prin byth ar gael, os o gwbl, heblaw fel rhan o gyfansoddion paracetamol. Fodd bynnag, cafodd codin neu dihydrocodin ar eu pen eu hunain eu cynnwys yn y dangosydd gan eu bod yn hawdd cael gafael arnynt a gwyddom fod pobl yn eu camddefnyddio yn y ffurf hon. Dyma resymeg y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban.
3. Mae cyffuriau a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn cynnwys cyffuriau dosbarth A, B ac C.
4. Mae gwybodaeth am y categorïau achos marwolaeth a ddefnyddir i ddiffinio'r dangosydd yn ICD-9 ar gael yn yr adroddiad yn Health Statistics Quarterly 13. Ar gael i'w lwytho i lawr o wefan ONS: www.ons.gov.uk/hsq/health-statistics-quarterly/no-13-spring-2002/index.html